**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa’r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 20FED EBRILL, 2023**

***CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I’R AELODAU AM 10:00**

Lleoliad

**Hybrid**
(Aml - leoliad)

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**
**ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13 Ebrill 2023)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Rheinallt Puw
Linda Ann Jones
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
Jina Gwyrfai

Medwyn Hughes
Dewi Jones
Linda Morgan
Meryl Roberts
Sasha Williams

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
John Pughe

Anwen J. Davies
Beth Lawton
Angela Russell

## Llafur / Rhyddfrydol(1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Cynghorydd Elin Walker Jones

Cynghorydd Dilwyn Morgan

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 4. COFNODION — 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16 Chwefror 2023 fel rhai cywir

## 5. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN AWTISTIAETH GWYNEDD — 10 - 13

Aelodau Cabinet: Cynghorydd Elin Walker Jones a’r Cynghorydd Dilwyn Morgan

I ystyried diweddariad ar y cynnydd.

## 6. CEFNOGAETH I UNIGOLION SYDD Â DEMENTIA YNG NGWYNEDD — 14 - 19

Aelod Cabinet: Cynghorydd Dilwyn Morgan

I ystyried diweddariad ar ddatblygiadau newydd yng Ngwynedd i unigolion â dementia.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 16 CHWEFROR 2023

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Linda Ann Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Jina Gwyrfai, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Elwyn Jones, Beth Lawton, Linda Morgan, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, John Pughe, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Angela Russell, Einir Wyn Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Alun Williams (Uwch Reolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Mari Wyn Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion)
Hawis Jones (Rheolwr Comisiynu, Chontractau a Phrosiectau, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

Myfanwy Moran a Huw ap Tegwyn (Arolygaeth Gofal Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Menna Baines ac Anwen J. Davies

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol eu bod gyda buddiant mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd Eryl Jones Williams yn eitem 5 ar y rhaglen oherwydd bod ei wraig yn derbyn gofal gan Wasanaethau Cyngor Gwynedd. Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem

- Y Cynghorydd Rheinallt Puw yn eitem 5 a 6 ar y rhaglen gan fod ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaeth Oedolion. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod

- Y Cynghorydd Gwynfor Owen yn eitem 5 a 6 ar y rhaglen gan fod ei fab yn derbyn gofal allsirol. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD YMCHWILIAD AROLYGAETH GOFAL CYMRU (AGC) – ADRAN OEDOLION IECHYD A LLESIANT

Amlygodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant bod Arolygaeth Gofal Cymru wedi cynnal arolwg ar berfformiad Gwasanaethau Oedolion y Cyngor yn ystod Medi 2022. Ategodd bod yr Adran yn ymwybodol o'r materion a gafodd eu hadnabod.

Croesawyd Myfanwy Moran a Huw ap Tegwyn (Arolygaeth Gofal Cymru) i'r cyfarfod. Darparwyd cyflwyniad i'r Aelodau oedd yn adrodd ar ganfyddiadau Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Oedolion Cyngor Gwynedd, Medi 2022. Cyfeiriwyd at bedwar maes roedd yr arolygaeth yn eu hymchwilio ac at gryfderau'r Cyngor wrth ymateb i'r gofynion hynny. Amlygwyd bod disgwyl i Gyngor Gwynedd ystyried y meysydd a nodwyd i'w gwella gan gymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hynny. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy weithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r Awdurdod Lleol.

Diolchwyd am y cyflwyniad

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-
- Llongyfarch yr Adran am eu gwaith
- Nad oedd dim byd trawiadol wedi ei ganfod a bod hyn yn galonogol

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-
- Wrth ymgynghori gyda defnyddwyr a gofalwyr fe adolygwyd sampl o ffeiliau gan gynnal trafodaethau a grwpiau ffocws oedd yn cynnwys gweithwyr ym maes gofal, defnyddwyr y Cyngor a defnyddwyr cwmnïau preifat. Ategwyd bod llawer wedi cael ei wneud i geisio cynnwys llais defnyddwyr.
- Nad oedd cyfeiriad at Wasanaethau Cefnogol na Gweithwyr Cefnogol a hynny oherwydd natur a ffiniau'r arolwg. Nodwyd bod yr elfen 'maes' a 'lleoliad penodol' ddim yn berthnasol i'r arolwg yma gan mai edrych ar y gwasanaeth yn gyflawn oedd y gwaith. Yng nghyd-destun elfennau Gwasanaethau Cefnogol byddai hyn wedi ei gasglu drwy adolygu'r ffeiliau. Ategwyd bod yr Arolygwyr wedi trafod gyda grwpiau ffocws, Gwasanaethau Cefnogol yn y trydydd sector a'r Cyngor. Mewn ymateb, amlygwyd os yw Gwasanaethau Cefnogol y Cyngor yn comisiynu Gwasanaeth Cefnogol yna dylai gael ei ymgorffori fel rhan o'r adroddiad
- Gyda diffyg mewn capasiti staff a chynnydd yn y galw, nodwyd bod yr arolwg wedi adnabod y diffyg ac wedi tynnu sylw at y mater fel un sydd angen ei wella. Ategwyd bod cyllid ychwanegol wedi ei adnabod ar gyfer 2022/23 i gefnogi'r gwaith ond mai anodd yw denu gweithwyr cymwys i weithio contractau tymor byr Er hynny, derbyniwyd bod angen bod yn fwy creadigol wrth gyfarch hyn i'r dyfodol.
- Wrth dderbyn bod llawer o waith recriwtio wedi ei wneud drwy gyhoeddi fideos a hysbysebion, a bod y broblem recriwtio yn un genedlaethol, gofynnwyd os oedd yr Arolygaeth wedi gweld llwyddiant recriwtio mewn ardaloedd eraill ynteu arian oedd yn gyrru'r broblem? Rhoddwyd ymateb drwy nodi bod rhai ardaloedd gyda chynlluniau gwahanol. Awgrymwyd ystyried moderneiddio gwasanethau ac ystyried esiamplau o arfer da gan Awdurdodau eraill - mentrau cymdeithasol yn engraifft dda..

- Er nad oedd sicrwydd bod y sefyllfa recriwtio wedi gwella nodwyd bod adolygiadau yn cael eu gwneud yn rheolaidd.
- I wella a datblygu systemau i sicrhau ansawdd a gwybodaeth am berfformiad ymhellach nodwyd bod bidiau wedi eu cyflwyno sawl gwaith am adnodd ychwanegol i gryfhau'r tîm ond heb fod yn llwyddiannus. Er bod y Gwasanaeth wedi gwneud yn dda gyda rhai bidiau yn y gorffennol, efallai nad yn ddigon llwyddiannus mewn ymateb i ddisgwyliadau'r Llywodraeth, defnyddwyr a thwf yn y galw. Y bwriad yw yntau gwneud cais am grantiau neu ail ddefnyddio adnoddau presennol. Os bydd galw statudol i sicrhau ansawdd bydd rhaid ymateb.
- Bod y Gwasanaeth yn agored i ystyried strwythuro shifftiau fel bod modd i ofalwyr gael sefydlogrwydd mewn gwaith arall i gryfhau a gwella'r gweithlu. Cyfeiriwyd at enghreifftiau lle cafodd myfyrwyr o Goleg Merion Dwyfor brofiad gwaith yn y maes a mynd ymlaen i dderbyn cyfleodd fel gweithwyr achlysurol. Ategwyd, petai rhywun eisiau gweithio yn y maes gofal y gellid trafod yr oriau gwaith posib a bod yr adran yn agored i unrhyw syniadau er mwyn denu mwy o staff.
- Gyda'r Bwrdd Iechyd dan gryn bwysau ac yn rhoi blaenoriaeth i wella pobl, gellid dadleu nad yw'r elfen partneriaethol yn derbyn yr un sylw. Er hynny gyda chydweithio gyda Phartneriaethau yn rhan o'r Cynllun Gwella nodwyd bod cydweithio da ar lefel llinell flaen, ond cydnabuwyd bod lle i wella ar yr elfennau strategol

**PENDERFYNWYD:**

a) Derbyn yr adroddiad a chanfyddiadau'r Arolygaeth Gofal gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.

b) Derbyn rhaglen waith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r ymateb

**6. ADRODDIAD ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH OEDOLION GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad drafft gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Atgoffwyd yr Aelodau bod Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022. Nodwyd bod yr asesiad hwnnw wedi ei lunio yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mynegwyd bod yr adroddiad a'r asesiad yn galluogi'r Gwasanaeth i weld y persbectif lleol ar anghenion gofal a chymorth poblogaeth oedolion Gwynedd. Ategwyd, yn ogystal â'r agweddau statudol a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad ar Ogledd Cymru, bod yr asesiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl am anghenion pobl Gwynedd yn benodol fyddai'n cynorthwyo'r Adran i gynllunio gwasanaethau yn lleol, gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau, a datblygu a thrawsnewid gwasanaethau i'r dyfodol

Gwaned cais i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar yr asesiad cyn ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i'r sylwadau a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Er derbyn yr angen i recriwtio a chynyddu cyflogau gofalwyr, nodwyd mai un rhan o'r ateb yw cyflogau.. Mae'n rhaid hefyd ceisio sicrhau patrwm gwaith teg a modd o ddatblygu gyrfa yn y maes. Cydnabuwyd bod bwlch mawr angen ei gyfarch gyda rhai o elfennau'r broblem recriwtio tu hwnt i allu'r Awdurdodau Lleol a bod angen arweiniad a phenderfyniadau ar lefel cenedlaethol.

- Mewn ymateb i sylw am gynlluniau i Gartrefi Nyrsio yn Ne Meirionnydd, nodwyd bod bwlch gwelyau nyrsio yn Ne Meirionnydd a Phenllyn ond bod cyfleoedd yn codi mewn rhai ardaloedd i wella'r sefyllfa. Amlygwyd bod De Meirionnydd yn edrych ar barhau gyda'r gwasanaeth o addasu gwelyau preswyl ar gyfer gofal dwys gan ystyried y posibilrwydd o ddarparu gofal nyrsio mewn rhai unedau i'r dyfodol - Bryn Blodau yn cael ei ystyried fel un lleoliad. Er nad oedd amserlen bendant ar gyfer y gwaith, nodwyd bod angen sicrhau bod y gallu i ddarparu gwasanaeth wedi ei sefydlu mewn egwyddor ond bod angen cryfhau'r berthynas gyda'r Bwrdd Iechyd a chwblhau gwaith cyfreithiol sydd ynghlwm. Y bwriad wedi ei adnabod fel cyfle sydd yn hyfyw, yn faes blaenoriaeth ac yn gynwysedig yng Nghynllun y Cyngor – a bod disgwyliadau felly i gyflawni.
- Wrth ymgynghori gyda gofalwyr defnyddiwyd y wybodaeth gyfredol o'r gwaith asesu y mae gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr y 3ydd sector yn ei gasglu ynghyd a gwybodaeth gan y Swyddog Materion Gofalwyr. Er derbyn bod y diffiniad 'gofalwr' yn un eang ac nad oedd modd ymgynghori gyda phawb, wedi derbyn y sylwadau, cyflwynwyd casgliadau'r asesiad gyda'r defnyddwyr am sylwadau pellach.
- Yng nghyd-destun awtistiaeth, amlygwyd siom nad oedd Cydlynydd / Swyddog Prosiect wedi ei benodi ar gyfer datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth er bod bwriad hysbysebu'r swydd yn yr wythnosau nesaf.
- Croesawyd y bwriad i sicrhau y dylai bob aelod staff sydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ASA, er mai ar lefel gyffredinol oedd hyn. Pwysleisiwyd bod rhaid sicrhau hyfforddiant dwys i'r rhai hynny sydd yn ymdrin ag awtistiaeth yn uniongyrchol. Mewn ymateb nodwyd bod hyfforddiant mandadol yn cael ei gyflwyno i holl staff y Cyngor sydd yn cael ei gynnwys fel un rhan o dri lefel o hyfforddiant ASA. Bydd y rhai hynny sydd yn ymdrin ag awtistiaeth yn uniongyrchol yn derbyn hyfforddiant ar ddwy lefel uwch.
- Mewn ymateb i'r Cynulliad yn gwrthod cymeradwyo Deddf Awtistiaeth, nodwyd bod angen sicrhau bod Uned Awtistiaeth Cyngor Gwynedd yn cael ei ymgorffori o fewn strwythurau cywir y Cyngor. Amlygwyd bod Cynllun Awtistiaeth 2021 - 23 wedi ei raglennu ar gyfer cyfarfod mis Ebrill ac y byddai modd trafod y mater yn y cyfarfod hwnnw.
- Bod rhestr aros am therapydd galwedigaethol yn Arfon yn uchel oherwydd bod nifer yn disgwyl am asesiadau arbenigol. Nodwyd bod yr achosion yn cael eu blaenoriaethu ar sail pa mor frys yw'r angen, ond derbyniwyd, er nad oedd datrysiad tymor hir i'r pryder, bod angen lleihau y rhestr aros.
- Mewn ymateb i gyflwr Cartref Fron Deg, sydd yn adeilad o'r 70au a chyfleodd posib i adeiladu unedau byw'n annibynnol ar dir cyfagos, nodwyd bod cynlluniau ar y gweill i asesu addasrwydd presennol yr adeilad ynghyd a chynlluniau Tai fyddai'n rhoi cyfle i edrych ar ddatblygiad mwy. Derbyniwyd nad oedd y Cartref yn ddelfrydol ar gyfer yr angen presennol nac i'r hyn y mae'r defnyddwyr yn ei haeddu. Er nad oes cynlluniau pendant mewn lle, nodwyd bod trafodaethau ynglŷn â moderneiddio a chynyddu'r defnydd yn cael eu cynnal. Mae'n gyfle cyffrous sydd angen mewnbwn Aelodau, y cyhoedd, defnyddwyr a theuluoedd.
- Rhagdybiaethwyd cynnydd sylweddol yng Ngwynedd mewn pobl dros 65oed rhwng 2020 a 2040 - gyda chanlyniadau'r cyfrifiad yn adrodd yn wahanol i'r rhagdybiaeth, bydd rhaid adolygu'r ffigyrau yn aml. Bydd yr Adran yn cydweithio gyda'r Uned Ymchwil a Dadansoddeg i ymchwilio i hyn.
- O ran defnyddio'r asesiad i'r dyfodol, nodwyd bod yr asesiad yn gosod darlun pum mlynedd fydd yn cael ei ddefnyddio fel arf i gynllunio a newid gwasanaethau. Wedi ei gyhoeddi bydd bwriad ei addasu a'i adolygu yn rheolaidd

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Bod cynnwys yr adroddiad yn arbennig
- Bod cyflwyno hyfforddiant yn un o gryfderau'r Cyngor
- Bod angen addasu tabl nifer o gartrefi preswyl a nyrsio fesul ardal yng Ngwynedd i amlygu un safle yn Dolgellau ac un yn ardal Abermaw yn hytrach na dau yn Nolgellau.
- Tabl 'Nifer o dai gwarchod fesul Ardaloedd Llesiant Gwynedd' - angen cynnwys gwybodaeth am Ardal Llesiant Llŷn
- Croesawu gwahoddiad gan yr Aelod Cabinet i'r Cynghorwyr Lleol fynychu ymweliadau safle i drafod cynlluniau ar gyfer Fron Deg, Penrhos a Dolfeurig
- Diolchwyd i'r tîm am eu gwaith

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## 7. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23

Darparwyd adroddiad byr i'r Aelodau yn dangos rhaglen waith diweddaraf y Pwyllgor dros y misoedd nesaf. Eglurwyd y bydd angen addasu'r rhaglen waith o ganlyniad i eitemau yn llithro. Gyda thair eitem eisoes wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod mis Ebrill, awgrymwyd bod 'Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Plant a Theuluoedd)' a 'Cynllun Gweithredu yn cael eu hail raglennu ar gyfer Mehefin 2023.

**PENDERFYNWYD**

**Addasu'r rhaglen waith er mwyn blaenoriaethu eitemau ar gyfer cyfarfod Ebrill 2023 o'r Pwyllgor Craffu Gofal a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 1:00pm

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR CARAFFU GOFAL CYNGOR GWYNEDD** |
| **DYDDIAD** | **20 Ebrill, 2023** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Y CYNGHORYDD ELIN WALKER JONES/CYNGHORYDD DILWYN MORGAN (SWYDDOGION CEFNOGI – ALED GIBBARD a HELEN FON OWEN)** |
| **PWNC** | **DIWEDDARIAD AR GYNLLUN AWTISTIAETH GWYNEDD** |

**1. PWRPAS**

- Daeth y Côd Ymarfer ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth i rym ar 1 Medi 2021, gan roi eglurder ar gyfrifoldebau Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar eu cyfrifoldebau a'r gwasanaethau sydd eu hangen i gefnogi pobl awtistig.
- Cyflwynwyd Cynllun Awtistiaeth Gwynedd i'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Tachwedd 2021.
- Mae'r adroddiad hwn felly i roi diweddariad ar gynnydd.

**2. DIWEDDARIAD STAFFIO**

- Roedd y cynllun yn wreiddiol yn cynnwys penodi Cydgysylltydd a Gweithiwr Cymdeithasol oedran pontio yn gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ynys Môn. Wrth i'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) ddod i ddiwedd ei rhaglen 5 mlynedd ym mis Mawrth 2022, roedd rhaglen 5 mlynedd newydd yn cael ei chyflwyno o dan y Gronfa Integredig Ranbarthol (RIF). Pan gyhoeddwyd y canllawiau newydd, adolygwyd y prosiectau cyfredol o fewn y rhaglen ICF, a chododd cyfle fel rhan o'r trefniadau ariannu newydd i wneud cais am arian ychwanegol ar gyfer y cynllun awtistiaeth.
- Bu'r bid am y cyllid hwn yn llwyddiannus ac o ganlyniad yn golygu y gellir cynyddu'n sylweddol adnoddau staffio Gwynedd ar gyfer datblygu gwasanaethau awtistiaeth ar draws y sir. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn caniatáu ar gyfer Arweinydd Prosiect, Gweithiwr Cymdeithasol oedran pontio yn ogystal â 4 gweithiwr allweddol. Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn cyflogi Gweithiwr Allweddol a byddwn yn parhau i gydweithredu i ddatblygu ein cydymffurfiad â'r Côd Ymarfer. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd ar hyn o bryd yn recriwtio ar gyfer swydd Gweithiwr Cymdeithasol i fod yn rhan o'r Gwasanaeth Niwroddatblygiadol ac mae'r broses gyfweld ar fin digwydd.
- Mae Arweinydd Ymarfer Awtistiaeth bellach wedi ei phenodi a bydd yn dechrau yn ei rôl ym mis Mai 2023. Bydd y swydd hon yn cydlynu datblygiad gwasanaethau awtistiaeth yng Ngwynedd ac yn gweithredu fel rheolwr llinell ar gyfer y swyddi eraill. Mae swydd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cael ei hysbysebu am yr eildro, heb unrhyw ymgeiswyr ar gyfer yr hysbyseb cyntaf. Mae cyfweliadau ar gyfer y swydd yn cael eu trefnu ar hyn o bryd. Bydd swyddi'r Gweithiwr Allweddol yn cael eu hysbysebu'n fuan. Mae'r trefniant dros dro ar gyfer y Cydlynydd Prosiect rhan amser yn parhau yn ei le hyd nes y bydd penodiadau wedi'u gwneud i'r swyddi llawn amser.

**3. CODI YMWYBYDDIAETH**

- Mae'r Cod Ymarfer yn gofyn am ddealltwriaeth o awtistiaeth ar draws y gymuned, gan ddarparu gwybodaeth ymwybyddiaeth gyffredinol a darparu gwybodaeth i bobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr.
- Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol trwy ei wefan, autismwales.org, yn darparu ystod eang o wybodaeth yn ogystal â manylion cyswllt a dolenni defnyddiol i sefydliadau eraill. Mae'n cynnwys gwybodaeth am awtistiaeth, sut mae'n effeithio ar unigolion a'u teuluoedd yn ogystal ag adnoddau defnyddiol ar gyfer unigolion awtistig, rhieni a gweithwyr proffesiynol.
- Mae'r Cydlynydd Prosiect, ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Gwynedd, wedi diweddaru gwefan y Cyngor i gynnwys gwybodaeth am awtistiaeth ac yn cynnwys dolenni i wefan Awtistiaeth Cymru yn ogystal â gwybodaeth fwy lleol. Y bwriad yw diweddaru'r wefan hon a'i datblygu ymhellach i gynnwys digwyddiadau lleol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth gyswllt trwy gyfeiriad e-bost pwrpasol a bydd yn cynnwys rhif ffôn y Tîm Awtistiaeth unwaith y bydd yn weithredol.

**4. HYFFORDDIANT**

- Drwy'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (TAC) sefydlwyd grŵp gweithlu aml-asiantaethol ac mae'r fframwaith hyfforddi ar gyfer Awtistiaeth yn cael ei adolygu fel rhan o'r gwaith hwn. Mae modiwlau E-ddysgu wedi'u datblygu ac mae'r cyntaf, "Deall Awtistiaeth", ar gael ar lwyfannau dysgu pob Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd a'r Heddlu. Yng Ngwynedd, mae dros 300 o staff bellach wedi dilyn yr hyfforddiant hwn. Hyd yn hyn, mae hyn yn cynnwys staff gofal cymdeithasol plant ac oedolion yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o gwmni Byw'n Iach. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar lefel gorfforaethol mewn perthynas â chyflwyno'r hyfforddiant hwn i bob aelod o staff ar draws y gwahanol adrannau ac i gynnwys yr hyfforddiant fel rhan o raglenni anwytho ar gyfer staff newydd.
- Mae'r ail fodiwl, "Cyfathrebu Effeithiol", hefyd bellach wedi'i ddosbarthu i bob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i anelu at yr aelodau hynny o staff sydd, fel rhan o'u rôl, yn fwy tebygol o ddod ar draws unigolion awtistig. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd, gan ddechrau gyda staff gofal cymdeithasol yn y gwasanaethau plant ac oedolion (sydd eisoes wedi dilyn y modiwl hyfforddi Deall Awtistiaeth). Mae'r hyfforddiant hwn i'w ddarparu i staff rheng flaen ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion i ddechrau a bydd hefyd yn cael ei ddarparu i'r staff hynny mewn adrannau eraill sydd â rôl wyneb blaen e.e. yr Adran Tai a staff hamdden Byw'n Iach ymhlith eraill.
- Mae 3 modiwl arall yn cael eu datblygu ar hyn o bryd drwy'r TAC, ac , ar gyfer yr Awdurdod Lleol, mae'r hyfforddiant hwn wedi'i dargedu'n fwy tuag at gofal cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol sy'n gweithio yn y gymuned. Mae angen gwneud rhagor o waith i nodi'r holl rolau priodol o fewn yr awdurdod lleol sydd angen yr hyfforddiant hwn er mwyn paratoi ar gyfer cwblhau a chyflwyno'r modiwlau.
- Yn ystod Mawrth 2023 darparwyd hyfforddiant Bws Awtistiaeth yng Ngwynedd. Roedd hwn yn gyfle i dderbyn sesiwn hyfforddi synhwyraidd ryngweithiol o'r enw "Autism Reality Experience", lle gall pobl nad ydynt yn awtistig brofi rhai o'r anawsterau prosesu synhwyraidd a wynebir gan unigolion ar y sbectrwm awtistig. Darparwyd yr hyfforddiant dros 3 diwrnod mewn gwahanol leoliadau ar draws Gwynedd. Mynychodd dros 70 aelod o staff ac mae'r adborth ar yr hyfforddiant wedi bod yn gadarnhaol iawn. Yn sgil yr adborth, mae trafodaethau ar y gweill i drefnu sesiynau pellach ar y Bws Awtistiaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**5. Y TÎM AWTISTIAETH CENEDLAETHOL**

- Mae gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol rôl gyffredinol yn natblygiad gwasanaethau ledled Cymru. Fel Awdurdod Lleol rydym eisoes wedi meithrin cysylltiadau cryf â’r tîm ac yn mynychu cyfarfodydd yr Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol yn rheolaidd. Cynhelir y rhain yn chwarterol ac maent yn rhoi’r cyfle i rannu diweddariadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru, y Tîm Cenedlaethol ac i rannu diweddariadau lleol. Mae hefyd wedi bod yn fforwm i enwebu unigolion priodol i gymryd rhan mewn gweithgorau e.e. bu’r Cydlynydd Prosiect a chynrychiolydd o Uned Datblygu Gweithlu Gwynedd yn rhan o’r gweithgor a adolygodd y Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth ac a fu’n ymwneud yn agos wedyn â’r gwaith o gyflwyno’r Fframwaith a chyflwyno’r ddau fodiwl hyfforddi cyntaf.
- Mae'r TAC hefyd wedi datblygu Cymuned Ymarfer, lle mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes niwroamrywiaeth ac sydd am gynyddu eu gwybodaeth yn gallu mynychu'n rhithwir. Mae rhai o'r pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys Prosesu Synhwyraidd, Awtistiaeth a Hunaniaeth, Asesu, Awtistiaeth a bwyta a Methiant a Chamddiagnosis mewn merched. Mae taflenni ar gyfer y digwyddiadau hyn yn cael eu dosbarthu gan y TAC i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd ac yna'n cael eu rhannu gyda thimau perthnasol. Mae staff yn yr awdurdod lleol wedi mynychu rhai o'r sesiynau hyn.

**6. GWASANAETH AWTISITAETH INTEGREDIG GOGLEDD CYMRU**

- Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol Sir y Fflint, ac fel rhan o’r trefniant hwn, mae gweithiwr cyswllt ar gyfer Gwynedd. Mae GAIGC yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth rheolaidd a boreau coffi mewn lleoliadau ar draws Gwynedd gyfan ac mae’r digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysebu’n dda gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn hyrwyddo'r digwyddiadau hyn trwy ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â thrwy dimau unigol. Mae’r rhain yn ddigwyddiadau agored, gyda phresenoldeb amrywiol, ond maent yn rhoi’r cyfle i unigolion awtistig gyfarfod neu lle gall rhieni rannu profiadau.
- Cynhelir cyfarfodydd gyda GAIGC bob chwarter i rannu gwybodaeth a datblygiadau.

**7. BWRDD PARTNERIAETH**

- Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am y graddau y mae canlyniadau'n cael eu gwella ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl awtistig a'u teuluoedd neu ofalwyr.
- Ar lefel leol, mae cyfarfodydd wedi’u cynnal i drafod cynnydd yn erbyn y Cod Ymarfer ac ar hyn o bryd mae pob awdurdod lleol yn Rhanbarth Gogledd Cymru, yn ogystal â’r Bwrdd Iechyd, yn ymateb yn unigol i gais i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â chynnydd fel rhan o gweithredu'r Cod Ymarfer.
- Mae'r Cynllun Gweithredu i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mai. Bydd y wybodaeth yma’n cael ei defnyddio i ffurfio asesiad gwaelodlin i’w gyflwyno i’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a’i gynnwys mewn gwerthusiad sy’n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan sefydliad annibynnol ar ran Llywodraeth Cymru.

**8. BLAENORIAETHAU AM Y 6 MIS NESAF**

- Cynllun sefydlu ar gyfer y tîm newydd a lansiad y gwasanaeth newydd i godi ymwybyddiaeth.

- Sefydlu prosesau a threfniadau clir i'r tîm weithio ar draws gwasanaethau plant ac oedolion y sir. Cysylltu â fforymau presennol fel y fforwm oedran pontio a fforwm oedolion sy’n agored i niwed. Sefydlu cysylltiadau ar draws yr holl dimau gofal cymdeithasol.
- Cryfhau ymhellach y cysylltiadau gyda’r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig rhanbarthol, mynychu eu digwyddiadau gwybodaeth lleol a chwilio am gyfleoedd i weithio ochr yn ochr â’u gweithiwr cyswllt yng Ngwynedd i ddatblygu cefnogaeth i unigolion awtistig a’u teuluoedd.
- Ymgysylltu ag unigolion awtistig a’u teuluoedd yn ogystal â phartneriaid yn lleol er mwyn symud tuag at gyd-gynhyrchu gwasanaethau lleol a gwybodaeth i unigolion awtistig.
- Sefydlu perthynas waith gyda’r gwasanaeth niwroddatblygiadol a chynnig cymorth yn ystod camau cynnar asesu a diagnosis.
- Cwblhau'r diweddariad gweithredu fel rhan o'r asesiad gwaelodlin ar gyfer Gogledd Cymru erbyn diwedd mis Mai. Ar ôl cwblhau’r gwaith hwn, adolygu cynllun awtistiaeth Gwynedd yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr asesiad gwaelodlin.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20 Ebrill 2023** |
| **Aelod:** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Mari Wynne Jones, Uwch Reolwr Oedolion** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cefnogaeth i unigolion sydd â dementia yng Ngwynedd** |

### 1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i ddiweddaru'r pwyllgor yn dilyn adroddiad a gyflwynwyd fis Gorffennaf 2021. Roedd yr adroddiad hwnnw'n codi ymwybyddiaeth o'r cyflwr dementia ac yn rhoi trosolwg o'r hyn sydd ar waith i gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia yng Ngwynedd.

1.2 Bydd yr adroddiad yma yn rhoi'r prif ffocws ar ddatblygiadau newydd yng Ngwynedd i gefnogi unigolion â dementia.

### 2 Atgoffwr ar beth ydi dementia

2.1 Mae'r gair 'dementia' yn disgrifio grŵp o symptomau a allai gynnwys colli cof a/neu anawsterau meddwl, datrys problemau neu iaith. Mae'r newidiadau hyn fel arfer yn cychwyn yn fychan, ond i rywun â dementia maent yn effeithio ar fywyd bob dydd.

2.2 Oherwydd ei natur (symptomau yn fwy amlwg dros amser wrth i'r cyflwr waethygu, a chyfradd diagnosis isel) mae'n anodd gwybod faint yn union o bobl sy'n byw efo'r cyflwr. Mae yna astudiaethau cenedlaethol sy'n amcangyfrif y cyfran o'r boblogaeth o wahanol grwpiau oedran sydd â'r cyflwr, ac ar sail hynny gellir amcangyfrif fod yna 2,049 o unigolion gyda dementia yng Ngwynedd, sef 1.67% o'r boblogaeth (122,864). Mae ymchwil Daffodil Cymru yn rhagweld bydd y nifer o bobl dros 65 oed yng Ngwynedd efo dementia yn cynyddu o 2,018 yn 2020 i 3,085 yn 2040; cynnydd o 35% mewn ugain mlynedd.

## 3 Y Cyd-destun Cenedlaethol - Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan

3.1 Y nod yw i wella gofal dementia i unigolion a'u gofalwyr trwy ddarparu llwybr clir tuag at weithredu safonau effeithiol o fewn gofal dementia yn y ddwy flynedd nesaf.

3.2 Gwelliant Cymru sy'n arwain ar y gwaith fel rhan o'r Rhaglen Gofal Dementia ac mae'n cael ei oruchwylio gan Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia (DOIIG) Llywodraeth Cymru.

3.3 Mae'r llwybr yn cynnwys 20 safon o dan 4 thema:

- Hygyrchedd
- Bod yn ymatebol
- Taith yr unigolyn
- Partneriaethau a Pherthnasoedd (a ategir gan Garedigrwydd a Dealltwriaeth).

3.4 Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi sefydlu 5 grŵp tasg er mwyn ymateb i'r rhaglen waith uchod. Mae cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd ar bob grŵp tasg.

1. Ymrwymiad Cymunedol
2. Gwasanaeth Asesu Cof
3. Cysylltydd Dementia
4. Siarter Ysbyty

5a. Datblygu'r Gweithlu
5b. Mesurau

## 4 Cefnogaeth a gwasanaethau Gwynedd

4.1 Ein gweledigaeth yw i gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia er mwyn eu galluogi i fyw gartref mor annibynnol a chyn hired a sydd bosib. Mae angen sicrhau'r ddarpariaeth gofal a chefnogaeth cywir, amserol, yn y lle iawn i gwrdd ag amrediad o anghenion.

4.2 Mae swydd Cydlynydd Dementia Gwynedd wedi'i chreu yn ddiweddar er mwyn arwain ar y maes o fewn y Cyngor drwy gydweithio ag unigolion sydd wedi'u heffeithio â dementia, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector. Bydd y cydlynydd yn gyfrifol am greu gweledigaeth a strategaeth Dementia Gwynedd i ymateb i'r llwybr safonau gofal. Swydd dros dro yw hon wedi'i hariannu o'r Gronfa Integredig Rhanbarthol (RIF). Gan ystyried y cynnydd yn y galw a'r disgwyliadau ar y gwasanaeth, mae'n debygol iawn y bydd angen y rôl hon ar sail parhaol.

4.3 Mae'r cydlynydd yn arwain ar sicrhau trosolwg clir o leisiau pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Bydd yn greiddiol i sicrhau bod eu barn yn dylanwadu ar gynlluniau gweithredu, polisïau a datblygiadau newydd o'r camau cychwynnol cyn diagnosis hyd at anghenion gofal preswyl a'r holl gamau rhwng y ddau begwn yma.

4.4 Uchelgais Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yw sefydlu Canolfannau Dementia Arbenigol yn y Dwyrain, y Gorllewin a'r Canol. Mae'r Cydlynydd Dementia yn cefnogi'r datblygiad hwn ar gyfer Gwynedd, ond y mudiadau trydydd sector sy'n arwain ar y gefnogaeth fel rhan o'r llwybr dementia. Mae'r Sefydliad Alzheimers yn cefnogi unigolion cyn ac ar ôl diagnosis; yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn cefnogi yn y Canolfannau Dementia; a Cynnal Gofalwyr yn cefnogi unigolion sy'n gleifion yn yr ysbyty. Mae'r mudiadau trydydd sector yn cefnogi pobl yn y gymuned gydag anghenion lefel isel a chanolig, yn ogystal â chynnig rhaglen gymorth sy'n cynnwys asesiadau clyw, deintyddol, offer a hyfforddiant. Mae Canolfan Dementia wedi agor yng Nghricieth un diwrnod yr wythnos ac mae gwaith yn parhau i ganfod gofod addas i ehangu'r gwasanaeth i ardaloedd Arfon a Meirionnydd.

4.5 Datblygiad newydd arall yw ein bod yn treialu cynllun rhanbarthol lle mae Arbenigwr Heneiddio'n Gadarnhaol yn gweithio efo nifer fach o unigolion sy'n byw â dementia a'u gofalwyr i gynnig asesiad ac ymyrraeth arbenigol i gefnogi ymddygiadau heriol.

4.6 Mae gwasanaeth Dementia Actif Gwynedd yn mynd o nerth i nerth gan ehangu a sefydlu mwy o wasanaethau i gefnogi unigolion a'i gofalwyr i fyw yn dda efo dementia. Mae'r nifer o sesiynau wedi ehangu i 17 er mwyn ceisio sicrhau darpariaeth ym mhob rhan o'r sir ac atal bylchau.

4.7 Mae swyddogion Dementia Actif yn darparu sesiynau Ffrind Dementia i geisio codi ymwybyddiaeth am ddementia a lleihau'r stigma a'r rhwystrau. Y gobaith ydi creu 2,023 Ffrind Dementia newydd o fewn cyfnod o 12 mis mewn cydweithrediad â'r gwaith Gwynedd Oed Gyfeillgar. Bydd profiad o'r teclynnau VR 'Profiad Byw Dementia' hefyd yn rhan o'r sesiynau hynny. Mae trefniadau hefyd mewn lle i'r holl aelodau etholedig dderbyn sesiwn Ffrindiau Dementia a chyflwyniad i waith Cydlynydd Dementia Gwynedd a gwaith tîm Dementia Actif Gwynedd.

4.8 Mae Dementia Actif Gwynedd yn rhan annatod o'r ymdrech i wneud Gwynedd yn sir Oed Gyfeillgar erbyn 2025 gan gydweithio gyda'r cydlynydd Oed Gyfeillgar ar agweddau o'r gwaith megis fforymau pobl hŷn, sesiynau pontio'r cenedlaethau ac ymgysylltu.

4.9 Rydym yn ddibynnol ar arian dros dro i'n galluogi i barhau gyda'r cynllun gweithwyr cefnogol dementia. Mae'r gweithwyr yma'n rhan o'r Timau Adnoddau Cymunedol ac yn cefnogi unigolion â dementia a'u gofalwyr i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.

4.10 Fel sydd wedi ei nodi wrthoch eisoes, mae cydnabyddiaeth na fydd yn bosib bob amser i bobl barhau i aros yn eu cartref eu hunain o ganlyniad i'r angen am ofal mwy arbenigol. Rydym yn awyddus i sicrhau fod pobl gyda dementia yn derbyn y gofal addas yn lleol er mwyn cadw cysylltiadau gyda theulu a ffrindiau a chael derbyn gofal mewn awyrgylch a diwylliant a thrwy gyfrwng iaith sy'n gyfarwydd iddynt.

4.11 Mae'r galw am ddarpariaeth dementia yn parhau i gynyddu, ac er ein bod wedi buddsoddi i gynyddu'r cyflenwad o wlâu dementia arbenigol mae rhestrau aros am y ddarpariaeth yn amlach gymaint os nad yn uwch na rhestrau aros am welyau preswyl safonol. Fel mae pethau ar hyn o bryd, a chan gadw mewn cof fod y galw yn newid yn gyson, mae gennym 50 o unigolion ar ein rhestrau aros yn disgwyl am wely arbenigol dementia.

4.12 Gwelwn y cynnydd yn y galw ar draws ein cymunedau, ac yn ein cartrefi gofal caiff hyn ei adlewyrchu yn y nifer uwch o'n trigolion sydd, er yn derbyn gofal preswyl safonol, bellach yn byw gyda dementia. Er nad yw nifer ohonynt angen gofal dementia arbenigol ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd cyfran uchel angen y gefnogaeth arbenigol ar ryw bwynt yn y dyfodol. Mae gennym oddeutu 50 o unigolion ychwanegol sy'n byw â dementia ac yn derbyn gofal preswyl safonol yn ein cartrefi gofal.

4.13 Prif ddefnydd ein gwelyau dementia arbenigol yw i ddarparu llety a chartref parhaol i drigolion sy'n byw â dementia dwys, ond fe'u defnyddir yn hyblyg i roi seibiant rheolaidd i ofalwyr hefyd. Mae'r gweithgareddau a'r gefnogaeth sy'n cael ei roi yn yr unedau arbenigol hyn yn ymateb i anghenion ein trigolion ac yn ystyrlon o'u diddordebau – e.e. tasgau bywyd o ddydd i ddydd, garddio, coginio, lluniau, cerddoriaeth.

4.14 Mae holl gartrefi gofal y Cyngor yn cefnogi ac yn gofalu am drigolion sy'n byw gyda dementia, ond gweler yn y tabl isod y cartrefi sy'n cynnig gofal dementia arbenigol.

| **Cartref Gofal Mewnol** | **Nifer y gwelyau*** | **Nifer y gwelyau dementia arbenigol*** |
|---|---|---|
| Plas Hedd, Bangor | 27 | 14 |
| Plas Ogwen, Bethesda | 27 | 0 |
| Plas Pengwaith, Llanberis | 31 | 0 |
| Plas Maesincla, Caernarfon | 23 | 23 |
| Plas Gwilym, Penygroes | 27 | 0 |
| Plas Hafan, Nefyn | 30 | 8 |
| Plas y Don, Pwllheli | 28 | 0 |
| Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | 41 | 17 |
| Cefn Rodyn, Dolgellau | 22 | 0 |
| Hafod Mawddach, Bermo | 30 | 7 |

| | | |
|---|---|---|
| Llys Cadfan, Tywyn | 33 | 15 |
| **Cyfanswm** | **319** | **84** |

*Noder fod nifer y gwelyau wedi eu nodi ar sail fod y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau yn Hafod Mawddach a Phlas Hedd.

4.15 Er nad yw'n cyflenwad o welyau dementia arbenigol yn cwrdd â'r galw sydd bellach ar ein gwasanaethau, dylid cydnabod y cynnydd sydd wedi bod dros y pum mlynedd diwethaf. Mae nifer y gwlâu wedi mwy na dyblu - o 39 gwely ar draws tri cartref i'r sefyllfa a adlewyrchir uchod.

4.16 Ar draws chwech o'n cartrefi gofal bydd gennym 84 o welyau dementia arbenigol, sy'n 26% o gyfanswm y gwelyau sydd gennym ar draws y sir. Noder nad yw'r gwelyau hyn i gyd mewn defnydd eto. Mae diffyg staff wedi golygu nad ydym wedi gallu agor 9 o welyau dementia arbenigol ym Mryn Blodau, Llan Ffestiniog. Yn ogystal, mewn perthynas â chyfanswm o 14 gwely, nid yw'r unedau yn Hafod Mawddach a Phlas Hedd eto wedi eu cwblhau.

4.17 Fodd bynnag wrth ystyried y data cenedlaethol a gwybodaeth leol, mae'n debyg y bydd rhaid ystyried y posibiliadau ar gyfer cynyddu nifer yr unedau ymhellach yn y dyfodol neu i addasu cofrestriad cartrefi i gynyddu darpariaeth. Bydd raid ystyried rheoliadau Arolygaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod lefelau staffio priodol yn yr unedau i gwrdd â'r angen. Yn ogystal, bydd angen ystyried oblygiadau cyllido addasiadau i'r cartrefi i sicrhau fod yr amgylchedd yn addas ynghyd â chyllido'r gofal yn yr hir dymor.

4.18 Ffactor arall sy'n gwbl greiddiol ac a fydd angen ystyriaeth lawn yw effaith yr her sy'n parhau o ran recriwtio a chadw staff yn y maes gofal. Yn y lle cyntaf, bydd angen asesu ein gallu fel cyflogwr i gyflogi digon o staff i allu agor yr unedau yn Llan Ffestiniog, Bermo a Bangor.

4.19 Wrth edrych tua'r dyfodol rhagwelir y bydd ein Asesiad Poblogaeth, a'r Asesiad Marchnad Tai Lleol, yn ein cefnogi i adnabod pa gartrefi gofal ddylid eu blaenoriaethu ar gyfer cynyddu ein cyflenwad o wlâu dementia arbenigol. Dylid nodi hefyd y cyfleon amlwg sy'n bodoli i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach drwy'r cynlluniau arloesol arfaethedig ym Mhenyberth a Phenygroes.

4.20 Mae cartrefi annibynnol yn bodoli yng Ngwynedd sy'n darparu gofal preswyl a nyrsio arbenigol ar gyfer dementia. Yn anffodus, nid oes darpariaeth nyrsio arbenigol ar gael i unigolion sy'n byw yn ardaloedd Llŷn a Meirionnydd. Mae hyn yn golygu fod rhaid i unigolion symud o'u cynefin er mwyn derbyn gofal addas. Mae'r galw am ofal nyrsio dementia yn uwch na'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol. Ar hyn o bryd mae pump cartref nyrsio dementia yn y sir. Mae hyn yn cynyddu pwysau ar ofalwyr, teuluoedd, ysbytai a nifer o unigolion sy'n gorfod gadael y sir i dderbyn gofal.

4.21 Law yn llaw â’r angen i gynyddu ein cyflenwad o welyau dementia arbenigol ymhellach, rhaid ystyried beth allwn ni ei wneud yn wahanol neu’n ychwanegol ar draws ein cymunedau i alluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel a chyda’r ansawdd bywyd gorau posib.

4.22 Mae gennym brosiect teleofal yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ailedrych ar y ddarpariaeth o offer a thechnoleg sydd ar gael, gyda’r bwriad o ehangu’r defnydd o offer arbenigol ymysg trigolion Gwynedd, gan gynnwys unigolion sy’n byw gyda dementia. Bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn buddsoddi mewn technoleg ac offer arbenigol dros y misoedd nesaf, ac yn gwerthuso’r wahanol opsiynau ar y cyd â’r Cydlynydd Dementia. Bydd y gwaith yma yn cynnwys treialu offer ar y cyd â thrigolion Gwynedd a’u gofalwyr er mwyn ystyried lle i flaenoriaethu buddsoddiad i’r dyfodol.

## 5 Camau nesaf

5.1 Byddwn yn ymrwymo i gyflawni gofynion Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer y Llwybr Safonau Gofal Dementia trwy gydweithio ag unigolion, eu teuluoedd a’u ffrindiau, ein partneriaid yn y trydydd sector a’r Bwrdd Iechyd.

5.2 Bydd y Cydlynydd Dementia yn sefydlu grŵp rhanddeiliaid a fydd yn cynnwys bobl sydd wedi’u heffeithio gan ddementia er mwyn cydweithio i greu Cynllun Gweithredu Dementia Gwynedd yn unol â’r safonau cenedlaethol.

5.3 Rydym yn ddibynnol ar arian dros dro i gefnogi nifer fawr o ddatblygiadau yn y ddarpariaeth gofal i unigolion â dementia. Yr her fydd sicrhau arian hir dymor i sicrhau cynaliadwyedd a datblygiad pellach y gwasanaethau hyn. Byddwn yn gwneud gwaith i ragweld effaith y galw ar ein cyllidebau dros y blynyddoedd nesaf a bydd angen gwneud penderfyniadau anodd o ran ail flaenoriaethu adnoddau os na fydd cyllideb ychwanegol ar gael.